

## City & Guilds Cwrs Sylfaen Gosod Brics Lefel 2



### Yn gwyno

Os ydych chi eisiau bod yn friciwr neu'n weithiwr tir, mae'r cwrs hwn wedi'i wneud ar eich cyfer chi! Gallwch ddysgu hanfodion gosod brics a sgiliau gwaith brics a gwaith tir sylfaenol yn ein gweithdai pwrpasol, fel y gallwch ddechrau eich gyrfa yn y diwydiant adeiladu.

### Dyma'r cwrs i chi os...

- ... Mae gennych ddiddordeb mewn gyrfa fel briciwr neu weithiwr tir
- ... Mae gennych ddiddordeb mawr mewn crefftau adeiladu
- ... Rydych chi eisiau cyfuniad o astudiaeth ymarferol a damcaniaethol

### Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r cwrs hwn yn eich galluogi i ddysgu, datblygu ac ymarfer y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth a/neu ddilyniant gyrfa mewn gosod brics a gwaith tir.



## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Byddwch yn astudio unedau mewn:

Egwyddorion adeiladu adeiladau, gwybodaeth a chyfathrebu  
Cyfrannu at osod allan ac adeiladu strwythurau gwaith maen hyd at gwrs gwrthleithder  
Cynnal gweithgareddau gosod blociau  
Cynnal gweithgareddau gosod brics a gwaith tir  
Cynnal gweithgareddau codi waliau ceudod  
Iechyd, diogelwch a lles mewn adeiladu

Asesir y cwrs trwy brosiectau ymarferol a phrofion ysgrifenedig ac ar-lein. Unwaith mae wedi'i gwblhau, mi fydd efo cymwysterau yn:

Diploma Lefel 1 Gosod Brics  
Cymwysterau ategol priodol i ehangu eich set sgiliau a chwrdd ag anghenion diwydiant  
Gweithgareddau Sgiliau  
Mathemateg a Saesneg

### **Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I gofrestru ar y cwrs bydd arnoch angen o leiaf 4 TGAU, Gradd D neu uwch, gan gynnwys Mathemateg/Rhifedd Mathemateg a Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf, neu gymhwyster Lefel Mynediad priodol.

Mae angen i chi fod ag awydd i weithio yn y diwydiant adeiladu. Mae angen ymrwymiad llawn i bresenoldeb, ynghyd â pharch at eraill, brwdfrydedd dros y pwnc a hunan-gymhelliant. Byddwch yn cael eich asesu'n barhaus ac mae disgwyl i chi barhau â'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

**Beth sy'n digwydd nesaf?** Diploma Lefel 2 mewn Gosod Brics, Prentisiaeth neu gyflogaeth.

**Gwybodaeth Ychwanegol** Bydd angen i BOB dysgwr wneud asesiad o'r diwydiant adeiladu i helpu i benderfynu ar y cwrs mwyaf priodol.

Apply online at [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk)

[studentrecruitment@colegwent.ac.uk](mailto:studentrecruitment@colegwent.ac.uk) | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

